

BATHAFARN BACH

CYLCHGRAWN HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Rhif 2 – Hydref 2012

Nodyn Golygyddol

Calonogol iawn oedd yr ymateb i rifyn cyntaf *Bathafarn Bach*. Gobeithiaf bydd yr ail rifyn hwn hefyd yn cael croeso gan ein darllenwyr. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau a hefyd eich cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf.

Yn ein cyfarfod diwethaf penderfynodd y Pwyllgor Hanes drefnu pererindod i Ddolwar Fach a Hen Gapel John Hughes Pontrobert ar 4 Mai 2013. Mae'r pererindod yn agored i bawb. Gobeithiwn gael eich cwmni ar y diwrnod arbennig hwn. Cyhoeddir fanylion llawn yn y *Gwyllyddydd* nes at yr amser ond os ydych chi eisiau gwybod mwy mae croeso ichi gysylltu â

Robin Jones

Llys Alaw, 18 Stad Eryri, Bethel,
Caernarfon LL55 1BX

(ffôn: 01248 670140. e-bost: robinbethel@tiscali.co.uk)

Hyfforddi Gweinidogion yn y 19eg Ganrif

Yn nyddiau cynnar y Cyfundeb roedd y broses o ddethol a hyfforddi gweinidogion yn eithaf anffurfiol. Un enghraifft oedd Richard Bonner, a dderbyniwyd i'r weinidogaeth yn 1813. Yn ôl Richard Morgan (A): 'megis yn hanes y rhan fwyaf o'r tadau Wesleyaidd Cymreig, cymerwyd ef allan heb nemawr ddysg, ond a gawsai yn ysgolion yr aelwyd, natur, a gras' (*Eurgrawn* 101, 1909, t.388). Os cafodd pregethwr cynnar hyfforddiant byddai'n ei dderbyn oddi wrth gweinidogion hŷn.

Cyn bo hir daeth y broses o ddethol yn fwy ffurfiol. Gallai'r broses o brofi addasrwydd ymgeisydd i'r weinidogaeth fod yn heriol. Yn 1827 cafodd yr ymgeiswyr Thomas Aubrey a Thomas Jones eu 'holi yn fanwl a maith' am bump o'r gloch yn y bore gan Robert Humphreys yn y Cyfarfod Chwarterol ac wedyn gan Lywydd y Gynhadledd, Joseph Entwistle, yn y Cyfarfod Taleithiol (*Pregethau yr Uwchrifiad Wesleyaidd Cymreig yn 1881-82*, gol. John Davies (B). Machynlleth, 1884, t.3). Pan oedd Llywydd y Gynhadledd yn bresennol yn y Cyfarfod Taleithiol yr arfer oedd iddo fe arholi ac roedd rhaid defnyddio cyfieithydd ar gyfer y rhai nad oeddent yn rhugl yn Saesneg. Hwn oedd profiad llawer o ymgeiswyr trwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. A hyd yn oed ar ôl bodloni'r Cyfarfod Taleithiol roedd rhaid wynebu Pwyllgor Gorfennaf y Cyfundeb, lle y rhoddwyd prawf pellach ar eu cymwysterau. Fel ysgrifennodd gweinidog yn 1891: 'Prin y gall neb ddywedyd fod y fynedfa i'r weinidogaeth gyda ni yn hawdd fyned trwyddi. *Trial lled galed ydyw'* (*Eurgrawn* 83, 1891, t.303).

Yn aml iawn gofynnwyd i ymgeisydd weithio fel gwas cyflog

ar y 'President's List', neu'r 'List of Reserve' am gyfnod ar ôl iddo gael ei dderbyn ar gyfer y weinidogaeth. Roedd y rhai ar y Rhestr yn llenwi bylchau hyd nes i'r Cyfundeb ddarganfod lle iddynt mewn cylchdaith. Roedd bod ar y Rhestr yn brofiad annymunol ar y cyfan, yn arbennig os oedd rhaid aros yn hir am safle. Rhoddwyd Evan Richards ar y Rhestr yn 1837 ac yr oedd arni am bedair blynedd. Arhosodd gartref am dair blynedd 'gan "weithio â'i ddwyllaw" fel Paul, ac ymdrechu pregethu ar y Sabbothau yn nghylchdaith Pwllheli' (*Eurgrawn* 70, 1878, t.179). Rhoddwyd William Morgan ar y Rhestr yn 1849 a gwasanaethodd am dair blynedd fel 'Lay Agent' yng nghylchdaith Llanfair Caereinion ac am ddwy flynedd ychwanegol wedyn ym Mhwellheli (*Eurgrawn* 108, 1916, t.54). Yn 1878 aeth T. Owen Jones (Tryfan) fel gwas cylchdaith i'r Fflint ac wedyn yn 1880 i Eglwysbach. Yn 1881 derbyniwyd ef yn ymgeisydd i'r weinidogaeth. Yn ôl Arthur W. Davies:

Nis gyrrwyd i'r coleg, ond danfonwyd ef yn gynorthwyr i'r Parch. Robert Jones (C) Arolygwr Cylchdaith Cefn Mawr, a oedd yn wael ei iechyd ar y pryd. Bu mewn gwahanol Gylchdeithiau ar ôl hyn, a derbyniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth [yn] 1885 (*Eurgrawn* 127, 1935, t.268).

Ymddengys mai lleiafrif o'r gweinidogion Cymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a fynychodd goleg. Yn 1912-13 cyhoeddodd *Yr Eurgrawn* gyfres o atgofion gan weinidogion gyda'r teitl 'Dechreu'r Yrfa: Atgofion Uwchrifiad'. O'r 19 o Uwchrifiad a gyfrannodd i'r gyfres dau yn unig oedd wedi bod mewn coleg. Wedi dweud hynny, mae'n amlwg i'r ganran a dderbyniodd addysg coleg gynyddu tua diwedd y ganrif. Mewn erthygl yn *Yr Eurgrawn* yn 1898 dywedodd Price Owen mai ychydig o ymgeiswyr a fynychodd coleg yn yr 1860au ond erbyn yr 1890au ychydig yn unig na chafodd y fantais o addysg coleg (*Eurgrawn* 90, 1898, t.95).


Y COLEGAU DIWINYDDOL

Yn 1835 agorwyd yr Hoxton Theological Institution yn Llundain. Hon oedd yr ymgais gyntaf gan yr Eglwys Fethodistaidd Wesleiaidd i ddarparu hyfforddiant ffurfiol i ymgeiswyr at y weinidogaeth. Roedd Hoxton yn fach ac er i'r Cyfundeb rentu adeilad arall yn 1839, sef Abney House yn Stoke Newington, fel cangen baratoawl i Hoxton, ychydig o ymgeiswyr a addysgwyd yn y ddau le.

Gan fod adeiladau Hoxton wedi'u rhentu, a chan nad oeddent yn addas iawn i'r pwrpas, penderfynodd y Cyfundeb fynd ati i sefydlu dau goleg yn Lloegr, y naill yn y gogledd a'r llall yn y de.

Yn 1842 agorwyd Coleg Didsbury ym Manceinion ac yn 1843 Coleg Richmond yn Llundain. Yn nes ymlaen agorwyd Coleg Headingley yn Leeds yn 1868 a Choleg Handsworth yn Birmingham yn 1881.

Roedd rhaid i bob ymgeisydd o Gymru a ddewiswyd i fynd i goleg fynychu un o'r colegau yn Lloegr. Ymysg y prif enwadau y Wesleiaid oedd yr unig un heb goleg yng Nghymru. Yn 1872



Coleg Didsbury, Manceinion

adroddodd John Hughes (Glanystwyth) fod Talaith y De wedi pleidleisio dros sefydlu coleg yng Nghymru:

Gan mai ychydig mewn cymhariaeth o'r pregethwyr Cymreig sydd yn cael myned i'n colegau yn Lloegr, a bod addysg pob dosbarth yn myned ar gynydd cyflym yn ein gwlad, teimlir yn gyffredin trwy ein Talaith (a deallwyf fod yr un teimlad hefyd yn y Dalaith Ogleddol), fod yn llawn bryd i ni wneyd rhywbeth er cael Coleg yng Nghymru. Brysied yr amser pan bydd yr amcan yna wedi ei gyraedd (*Eurgrawn* 64, 1872, t.350).

Er gwaethaf holl ymdrechion rhai o arweinwyr y Wesleaid Cymraeg ni wireddwyd y freuddwyd o gael coleg yng Nghymru. Roedd yr achos yn agos at galon Thomas Hughes (B) a frwydrodd yn galed ond yn aflwyddiannus drosto ym mlynnyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif.

Nid oedd yn annisgwyl bod rhai yn y Cyfundeb, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar, yn amheus am y manteision o addysgu gweinidogion yn y colegau. Achos pryder parhaol i'w cefnogwyr oedd diffyg gwybodaeth ymysg llawer yn y Cyfundeb am bwmpas a gwaith y colegau. Yn 1844 cyhoeddwyd llythyr yn *Yr Eurgrawn* yn disgrifio gwaith y myfyrwyr gyda nodyn gan y golygydd: 'Meddylasom y buasai y dosrannau perthynasol i'r Egwyddorfa, oddiwrt h un o'r brodyr o Gymru sydd yno, yn dra difyrus gan ein cyfeillion yn y Dywysogaeth, y rhai a ofynant weithiau - beth y maent yn ei ddysgu yno? Y llythyr canlynol a etyb eu cywreinrwydd yn llawn' (*Eurgrawn* 36, 1844, t.124). Yn 1870 ysgrifennodd Richard Jones erthygl am Goleg Richmond yn *Yr Eurgrawn* gan fynegi pryder am anwybodaeth Wesleaid am y colegau: 'Mae yn ffaith anwadadwy mai ychydig iawn y mae llawer o Wesleyaid Cymru yn ei wybod am ein Colegau ni fel Wesleyaid, ac y mae yn ddiarnheuoel genyf fod hyn yn cyfrif i radd helaeth am fychander eu cyfraniadau tuag at y cyfryw' (*Eurgrawn* 62, 1870, tt.244-6).

Y MYFYRWYR CYNTAF

Y myfyriwr Cymraeg cyntaf i fynychu coleg diwinyddol, ac un o'r myfyrwyr cyntaf ym Mhrydain, oedd Isaac Jenkins. Meddai Thomas Manuel: 'Efe oedd un o'r unarddeg cyntaf yn y Cyfundeb gafodd fanteision colegawl, os iawn galw yr hen Hoxton Academy yn goleg.' Mae'n amlwg bod Isaac Jenkins yn ddyn eithriadol: 'Yr oedd yn feistr trwyadl ar yr iaith Seisnig, mewn aceniaeth a gramadeg. Yr oedd yn hyddysg yn y Lladin, a darllenai Roeg yn rhwydd a rhigl.' (*Eurgrawn* 101, 1909, tt.401-6). Gweinidogion eraill a hyfforddwyd yn Hoxton oedd David Evans (2), John Samuel Jones, Thomas Jones (3) a Henry Wilcox. Cyn iddynt gael eu derbyn i Hoxton roedd rhaid iddynt ymddangos o flaen pwyllgor yn Llundain dan gadeiryddiaeth Dr Jabez Bunting ac, wrth gwrs, gael eu harholi yn Saesneg.

PROFIADAU MYFYRWYR

Roedd y cyfnod mewn coleg yn anodd i rai o'r myfyrwyr. Aeth Henry Parry i Richmond yn 1845: 'Ychydig o gyfleusderau addysg a gefais pan yn ieuanc, yr hyn oedd yn ddiffrwaf anfantais i mi am amser maith yn yr Athrofa' (*Pregethau yr Uwchrifiad 1881-82*, t.226). Roedd Hugh Owen yn fyfyrwr yn Didsbury yn 1871-74. Yn ei gofiant ohono soniodd Glanystwyth am yr anawsterau a wynebodd ddyn ifanc o gefn gwlad Cymru yn Didsbury: 'Yr oedd ymgladdu yn niwl Manchester, a throi yn nghanol Saeson na wyddant ddim am hen acenion croewon y Gymraeg, ond oeddent yn ynganu beunydd a byth rhyw shibboleth wefriol arwynebol iddo ef yn gyfnewidiad chwithig a dieithr'. Nododd Glanystwyth hefyd gynlleied o'r Cymry a aeth i un o'r colegau ar y pryd ac mor unig all dyn o Gymru deimlo mewn awyrgylch y coleg (*Eurgrawn* 94, 1902, t.52). Er gwaethaf hyn i gyd gwnaeth Hugh Owen argraff ffafriol iawn ar yr awdurdodau, gan ddysgu Saesneg mor dda iddynt hyd yn oed ystyried ei anfon i'r gwaith Saesneg.

Roedd David Thomas yn fyfyrwr yn Handsworth yn ystod

1882-85 a chafodd amser anodd iawn yn ôl ei ddisgrifiad:

Cefais amser caled yn y coleg am y tair blynedd y bum yno. Nid aeth ond saith i mewn o'r newydd i'r coleg y flwyddyn honno. Yr oedd tri ohonynt yn feibion i weinidogion Seisnig, ac wedi bod yn ein hysgolion goreu ar hyd eu hoes; y pedwerydd yn fab i foneddwr cyfoethog o Richmond, ac yn abl i dalu am ei addysg yn y coleg, ac wedi cael pob mantais addysgol cyn mynd yno; y pumed yn fab i weithiwr heb fod yn bell o Birmingham...Y Parch. Richard Hughes a minnau oedd y ddau arall. Yr oeddem oll yn yr un dosbarth, ac anawdd iawn oedd i ddau Gymro, heb wybod fawr o Saesneg, allu cystadlu gyda'r lleill oedd wedi cael y fath fanteision. Methodd y brawd Hughes, a throdd allan i gylchdaith, a bu yn weinidog rhagorol...ond euthum i ymlaen yn yr ymdrech, er mor galed ydoedd. Heblaw dysgu, ac ymarfer mewn Saesneg, yr oedd gennyf y flwyddyn gyntaf dri-ar-ddeg o *subjects*. Buasai tri i greadur gwan fel myfi yn ddigon mewn dosbarth gyda bechgyn oedd agos i gyd wedi cael manteision addysg rhagorol, ac effeithiodd fy llafur yn fawr ar fy iechyd. (*Eurgrawn* 113, 1921, t.232)

Ond, wrth gwrs, roedd llawer o'r myfyrwyr yn mwynhau eu hamser yn y coleg. Yn 1855 ymddangosodd pump o Gymry Cymraeg o flaen Pwyllgor Gorffennaf y Cyfundeb. Derbyniwyd y pump, ond dau yn unig a anfonwyd i goleg, sef John Pierce ac Owen Lloyd Davies. Yn ôl Pierce: 'Treuliasom dair blynedd hapus gyda'n gilydd yn Nidsbury'. Datblydodd ei allu yn Saesneg ac yn fuan roedd yn pregethu yn bennaf yn yr iaith honno. Disgwylid iddo gael ei anfon i'r gwaith Saesneg ond yn y diwedd aeth i gylchdaith Gymraeg. Aeth Thomas Hughes (B) i Headingley yn 1877 gyda dau Gymro arall a threuliodd 'dair blynedd ddedwydd ... a gobeithio am y bedwaredd' ond ni chafodd gan iddo gael ei anfon i Dorset fel 'supply'. Treuliodd David Roberts y blynyddoedd 1893-96 yn Handsworth, gan ymdaflu i fywyd y coleg yn ei holl agweddau a disgleirio mewn Hebraeg.

Un broblem cyson oedd yr arfer anffodus o dynnu myfyrwyr yn sydyn iawn allan o'r coleg i lenwi bwlch yn y weinidogaeth. Ceir lawer o enghreifftiau ond y gwaethaf, mae'n debyg, oedd John Price Roberts. Yn ôl D. Tecwyn Evans yr 'oedd yn ymgeisydd llwyddiannus am ein gweinidogaeth yn 1876, ac anfonwyd ef i Goleg Richmond, ond ymhen tri mis galwyd ef oddi yno i lenwi bwlch yn y Felinheli' (*Eurgrawn* 148, 1956, t.232). Weithiau galwyd ar fyfyrwr i lenwi bwlch am gofnod ond wedyn caniatwyd iddo ddychwelyd i'r coleg i orffen ei gwrs. Digwyddodd hyn, er enghraifft, yn achos William Owen Evans pan yn Didsbury yn 1886.

Yn naturiol, cafodd rhai o'r athrawon yn y colegau ddylanwad arbennig ar y myfyrwyr. Un enghraifft amlwg oedd y diwinydd William Burt Pope a enillodd edmygedd gan lawer o fyfyrwyr Didsbury. Treuliodd Thomas J. Pritchard ddwy flynedd yn y coleg yn yr 1870au 'where Dr W. B. Pope exerted a powerful and abiding influence over his mind and character' (*Assembly Agenda* 1918, t.24). Yn 1905 cyhoeddodd Pritchard *Uwch-Holwyddorydd Diwinyddol*, sef cyfieithiad i'r Gymraeg o *Higher Criticism of Theology* gan Dr Pope.

ASTUDIAETHAU

Paratowyd cynllun o astudiaethau yn 1834 ar gyfer yr Hoxton Theological Institution. Roedd yn cynnwys ystod eang o bynciau a drefnwyd mewn pump dosbarth. Awgrymwyd bod y myfyrwyr yn derbyn dysgeidiaeth yn 'as many of the following subjects as shall be found suitable and practical':

1. Gramadeg Saesneg; llefareg; daearyddiaeth; hanes; mathematig elfennol; gwyddoniaeth; rhesymeg; athroniaeth.
2. Diwinyddiaeth; 'Christian evidences'; athrawiaethau, dyletswyddau ac aferion Cristnogol; egwyddorion trefniant a llywodraeth eglwysig; diwinyddiaeth fugeiliol; ffurfiolwodraeth Fethodistaidd.

3. Beirniadaeth feiblaidd; dulliau o astudio'r Ysgrhythurau; dehongliadau o'r Ysgrhythur; hanes yr eglwys.
4. Homileteg; pregethu.
5. Lladin, Groeg, Hebraeg – digon i alluogi'r myfyriwr i ddarllen y Beibl yn yr ieithoedd gwreiddiol ac i'w baratoi i astudio ymhellach ('may be omitted').

I ni mae'r rhestr hon yn edrych yn eang iawn ond rhaid cofio i'r colegau dderbyn myfyriwr oedd yn dra wahanol yn safon yr addysg yr oeddent wedi'i derbyn cyn dod i'r coleg. Ymddengys bod y cwricwlwm yn dal yn eang trwy gydol y ganrif. Hyd yn oed yn 1935, sylwodd W. Bardsley Brash fod rhai o'r pynciau hyn wedi diflannu ond rhai newydd wedi'u hychwanegu, yn cynnwys llenyddiaeth Saesneg, cymdeithaseg, cymharu crefyddau, a seicoleg (*The Story of Our Colleges 1835-1935*. London, 1935, t.41).

Weithiau mae atgofion a chofiannau myfyriwr Cymraeg yn sôn am y pynciau a astudiwyd yn y colegau. Pan oedd Owen Lloyd Davies yn Didsbury yn yr 1850au 'rhagorai yn arbennig ym meysydd Rhesymeg, Athroniaeth Feddyliol ac *Euclid* (*Eurgrawn* 119, 1927, t.204). Yn 1870 ysgrifennodd Richard Jones erthygl (*Eurgrawn* 62, 1870, tt.244-6) am Goleg Richmond lle roedd yn fyfyrwr ar y pryd: 'Efallai y dymunai eich darllenwyr gwybod pa bethau yr ydym yn eu dysgu yma.

Wel, yr ydym yn astudio Diwinyddiaeth, Groeg a Lladin, Gramadeg, Rhifyddiaeth, Daearyddiaeth, Hanesyddiaeth, a llawer o *aethau* eraill na raid eu henwi.' Mae'n nodi bod 49 o fyfyrwr a phedwar o athrawon yn y coleg. Mae gan bob myfyriwr 'study' ac ystafell gwely. Mae'n tynnu sylw at y llyfrgell ardderchog, gan nodi bod y rhan fwyaf o'r llyfrau 'wedi eu cyflwyno yn anrheg i'r Coleg gan amryw foneddigion cyfoethog yn ein Cyfundeb.'

Mae'n amhosibl beidio edmygu llwyddiant rhai o'r myfyriwr Cymraeg difreintiedig. Un enghraifft yw David Roberts a anwyd ar fferm yn Llanellidan yn 1870 ac addysgwyd yn Ysgol Pentre Celyn. Wedi'i dderbyn i'r weinidogaeth anfonwyd ef i Handsworth lle 'daeth yn ddiwinydd da, ac yn Roegwr gwych; ond ei gamp fel myfyriwr oedd ei feistrolaeth ar yr iaith Hebraeg...Ceisiodd aml un o'i gyd-efrydwyr (a nifer ohonynt yn wŷr gradd) fynd heibio iddo yn nydd yr Arholiad yn y maes hwn, eithr cadw ei safle ar flaen y rheng a wnaeth ef tra fu yno' (*Eurgrawn* 123, 1931, t.109). Mae'n ddiddorol sylwi bod hyn wedi'i ysgrifennu gan Richard Jones Williams a oedd hefyd yn fab fferm a anfonwyd i Handsworth gan wneud yn dda yn Hebraeg a Groeg (*Eurgrawn* 128, 1926, t.6).

LIONEL MADDEN

Y Morris Davies Arall

Nid yn aml y mae bod meidrol yn gallu mentro cywiro catalog y Llyfrgell Genedlaethol, ond dyma un achos. Ac oherwydd mai Wesle sy'n cael cam, priodol yw nodi yma'r ffeithiau prin ond cywir.

Yn 1835 yn Nolgellau, cyhoeddwyd casgliad o gerddi *Anthem Bethlehem: yn cynnwys carolau a cherddi, a hymnau newyddion, y rhai na fu yn argraffedig o'r blaen*, gan Morris Davies, Penygarnedd, Swydd Drefaldwyn. Yn ôl y catalog, dyddiadau Morris Davies oedd 1796 i 1876; ond dyddiadau bywgraffydd Ann Griffiths yw'r rhain. Mae'n wir i hwnnw fod yn Llanfair Caereinion a Llanfyllin cyn ymsefydlu ym Mangor, ac fe roedd, fel y gwyddis, yn awdur toreithiog (gweler y *Bywgraffiadur*); ond nid y fo yw awdur *Anthem Bethlehem*. T. Jones-Humphreys, yn *Emynyddiaeth Wesleyaidd Gymreig* (Bangor, 1903, tt.81-2) sydd yn adnabod ei ddyn, ac yn atgynhyrchu, ond gyda llawer o amrywiadau o'r gwreiddiol, pedwar emyn. Y mae brawddeg neu ddwy hefyd, heb gyfeirio at y gyfrol, gan Hugh Jones yn *Hanes Wesleyaeth*, cyf.3, t.1415: 'Cyn hir, ymunodd un Morris Davies â'r ddau [Edward Jones ac Edward Lloyd], a daeth ymhen amser yn selog a gweithgar yn eglwys Pen y Garnedd. Yn 1847, ymfudodd i'r America, ond parhaodd ei undeb â'r eglwys ym Mhen y Garnedd hyd ei fedd.'

Yn ôl cyfrifiad 1840, 51 oedd oed Morris, labrwr yn byw gyda'i wraig Alice 48, Evans gynt, yn Wern, Cornorion, Penygarnedd. Tri o blant sy'n byw gartref yn 1841 (Ann, Sarah a Susannah) ond y mae hanes bedyddio'r plant yn taflu ychydig mwy o oleuni ar y cefndir. Bedyddiwyd John gan Richard Bonner yn Y Tabernacl, Llanfyllin ar 20 Hydref 1821, wedi ei eni 20 Ionawr, a'i rieni Morris, labrwr, ac Allys. Yr un modd Edward, 24 Mehefin 1823, eto yn Llanfyllin gan Evan Hughes. Erbyn bedydd Job, 28 Mehefin 1826, gan John Davies, y mae'r cartref yn Wernysgadog, Pennant, ac felly gyda Joseph, a fedyddiwyd gan Samuel Davies, 2 Rhagfyr 1828: ganwyd 15 Tachwedd, enw morwynol ei fam yn Evans. Erbyn bedydd Ann gan O. Jones, 31 Gorffennaf 1831, maent yn Cornorion. Yn Y Tabernacl hefyd y bedyddiwyd Sarah gan David Jones, 5 Gorffennaf 1835. Ganwyd Susannah yn 1839.

Gellir casglu ychydig o ffeithiau bywgraffyddol o'r gyfrol, *Anthem Bethlehem*. Ategir y cysylltiad cynnar â Llanfyllin drwy fod un o'r carolau yn gyflwynedig i'r Gymdeithas Gyfeillgar, Llanfyllin, ac y mae hefyd 'Can Newydd, o Fawl i Feddygwr y Gymdeithas, sef Mr Richard Davies, Llanfyllin'. Mae'n debyg

na ellir darllen rhyw lawer i mewn i'r gan 'a wnaethum, wrth ymadael a Mor Abermaw.' Ceir hanner dwsin o englynion cyfarch gan Evan Breese [Ieuan Cadfan], Llangynog, dyddiedig 4 Mai 1835. Y mae rhagymadrodd Morris Davies ei hun yn ddiymhongar ddigon: 'Wele fi fel y gwaelaf was-anaethydd i'r Wladwriaeth [beth, tybed, yw arwyddocâd hyn?], yn meddwl eich cyfarch gyda math o lyfr newydd...Mi ofnais rhag dyfod dan yr un cyhuddiad a'r gwas anfuiddiol hwnw, o guddio fy nhalent dan y ddaear, er ei lleied, heb ei rhoddi i fwrdd y cyfnewid. Rhaid i mi gyfaddef fy mod yn ol o ennill gwybodaeth o reolau y mesurau caethion, trwy hynny y mae fy iaith yn dra sathredig, fel y galluoga y werinos i'w deall gyda hwylusod.' Ond nid oedd yn gwbl ddi-ddysg, fel y tystia'r ffaith ei fod yn un o'r tanysgrifwyr i argraffiad 1836 o *Golwg ar Deyrnas Crist* Pantycelyn; felly hefyd i Evan Breese *Yr Odlydd Cysurus, Cyfaill i'r Trallodus*, (Llanrwst, 1839).

Efallai nad oedd Hugh Jones yn fanwl gywir wrth bennu 1847 yn flwyddyn yr ymfudo, ond methais ddod o hyd i'r teulu mewn blynyddoedd cyfagos chwaith. O bosibl fod y bechgyn hynaf wedi aros yng Nghymru, sut bynnag; roedd rhyw Edward Davies, 28 oed yn wagenwr yn Garthgelynen Fawr, Llanfyllin, yn 1851.

Ond hyd yn oed os collwyd golwg ar Morris Davies yn America, ni ddylid ei anghofio. Dyma enghraifft o un o'i emynau:

Gwyneb grasol Iesu gwyn, fyddo'n gwenu,
Ar fy enaid yn y glyn, rhag fy maglu,
Anghrediniaeth, cadw yn ol, rho gysuron,
Cymer Iesu, fi'n dy gol, dros yr afon.

Ond cael gwenau Iesu gwyn, mi orchfyga,
Ac a ganaf yn y glyn, Haleluah,
Marwol goncwest Calfari, fydd fy nhestyn,
Dwyfol gariad, Un yn Dri, maith diderfyn.

Cariad mawr anfeidrol yw, haedd ei gofio
Iesu'n marw i mi gael byw, diolch iddo,
Fe ddyoddefodd galed gur, dan yr hoeilion,
Dan ei fron – ei dori â dur, rhwng y lladron.

Fe ddibenodd Iesu ei daith, yn fendithiol,
Cyflawnodd Ef ei orchwyl maith, dros ryw ddynol.
Iawn digonol ynddo gaed, dros euogion,
Cannu'n wynion yn ei waed, mae llofruddion.

GLYN TEGAI HUGHES

Capel Wesla Ninety-Six

Gwan iawn y bu y Wesleaid Cymraeg yn yr Unol Daleithiau erioed, o gymharu â'r enwadau anghydfurfiol eraill. O'r 11 o gapeli a gododd y Cymry, rhai ohonynt mor gynnar ag 1840-50, yr oedd pob un o'r achosion Wesleidd wedi dirwyn i ben fel achos Cymraeg erbyn diwedd degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif. Roedd pedwar o'r capeli yn Nhalaiith Efrog Newydd, pedwar ym Mhensylfania, un yn Illinois, un yn Minnesota, ac un yn Wisconsin.

Y mae dyfod o hyd i hanes Capel Wesla Ninety-Six fel chwilio am aur. Hyd y gwn i nid oes neb wedi cofnodi stori'r achos yno yn llawn. Byddai'n rhaid croesi'r lwerydd i'r archifdai yng ngogledd Talaith Efrog Newydd i wneud cyfiawnder â'r hen gapel hwnnw.



Capel Wesla Ninety-Six

Enw ar ardal yn Sir Oneida, Efrog Newydd, oedd Ninety-Six. Yr oedd rhyw bedair milltir o dref Prospect, lle y dechreuodd y Cymry ymsefydlu yn 1825, a chwe milltir o dref Remsen, ac yr oedd y Cymry wedi cyrraedd y fan honno 30 o flynyddoedd ynghynt. Cafodd pentref Ninety-Six ei enw oherwydd 96 oedd rhif y darn tir y codwyd hi arno. Adeiladodd yr Annibynwyr Cymraeg eu capel nhw ar gornel Strydoedd Fairchild a Swamp yn 1841, ond cafodd ei dymchwel yn yr 1870au. Cododd y Methodistiaid gapel bychan hefyd yn yr un ardal, ond daeth yntau i ben yn yr 1850au. Ac yn y cyfnod hwnnw yr adeiladwyd Capel Wesla Cymraeg Ninety-Six, gyda'r aelodau yn rhannu ei weinidogaeth ag Eglwys Wesla Gymraeg Sixty Corners (1830-70), Remsen. Ni fu yno gymdeithas gref erioed, a daeth yr achos i ben yno yn 1890. Bu'r capel ynghau am bymtheng mlynedd, hyd nes ar ôl troad yr ugeinfed ganrif. Yn y cyfnod hwnnw cynhaliwyd angladd gwraig gefnog o'r ardal yn yr hen gapel, a phenderfynodd y rhai oedd yn bresennol yn y gwasanaeth ailagor y capel. Ar ôl hynny, cynhaliwyd gwasanaethau yno ar brynhawniau Sul o dan weinidog yr Eglwys Fethodistaidd yn Remsen. Bu hynny yn mynd ymlaen hyd 1915 pryd y tynnwyd y capel i lawr.

Ymysg rhai o weinidogion Capel Wesla Cymraeg Ninety-Six oedd y brodyr canlynol:

Parch. Thomas Thomas (1814-70)

Ganwyd yn y Bala. Dechreuodd bregethu yng Ngwyddelwern, Meirionnydd, yn 22 mlwydd oed. Ymfudodd i'r America yn 1854 ac yno yr ordeiniwyd ef. Bu'n weinidog yn Ninas Efrog Newydd; Ironton, Ohio; Utica, Remsen, Sixty, South Trenton, a Ninety-Six, Talaith Efrog Newydd. Llosgodd ei dŷ a'i holl eiddo yn Remsen yn 1867. Bu'n briod ar ddau achlysur. Ei wraig gyntaf oedd Maria (m. 5 Ebrill 1859 yn Ironton, Ohio); ac yna priododd â Mrs Mary Owens, Efrog Newydd (m. 2 Hydref 1883 yn 56 mlwydd oed). Yr oedd yn dad i naw o blant, dau o'r wraig gyntaf a saith o'r ail wraig. Bu ef farw 13 Hydref 1870 yn Fairchild, ger Remsen, lle y claddwyd ef.

Parch. Rees Davies (1815-75)

Ganwyd ym Melindre, ger Bryn Crug, Meirionnydd. Ymfudodd i'r America yn 1844, lle yr ordeiniwyd ef ddwy flynedd yn


ddiweddarch. Bu'n weinidog yn Sixty, South Trenton, a Ninety-Six, Talaith Efrog Newydd. Saer oedd ei alwedigaeth, ac yr oedd yn ŵr cefnog iawn.

Parch. John Ellis (1816-63)

Yr oedd yn fab i Thomas a Mary Ellis, Tŷ Gwyn, Helygain, Fflint. Priododd â Grace, merch i Capten Manuell, Mold Mines, pan oedd yn ugain oed. Ganwyd iddynt wyth o feibion ac un ferch. Dechreuodd bregethu yn Rhydymwyn, Cylchdaith y Wyddgrug, cyn ei fod yn 21 oed. Symudodd o Rydymwyn i Lerpwl, yna i Fflint, a dychwelodd i Lerpwl drachefn lle y bu am bedair blynedd. Symudodd o'r fan honno i Bangor, ac ymhen chwe mis wedyn yr oedd yn cychwyn ar ei daith i'r America. Bu'n genhadwr yn Cincinnati, Ohio am ddwy flynedd cyn cael ei ordeinio i'r weinidogaeth lawn amser. Symudwyd ef gan y Gynhadledd i Ironton, Ohio ac ymhen tair blynedd daeth yn weinidog i Efrog Newydd lle y treuliodd gweddill ei oes. Bu'n dioddef o'r eisglwyf (pleurisy) am bum mlynedd ac yn analluog i bregethu. Bu farw o glefyd y gŵau 30 Hydref 1863 a'i gladdu ym Mynwent Cypress Hill, Efrog Newydd.

Parch. Thomas Hughes (?? - 1871)

Ef oedd yr ieuengaf o saith neu wyth o blant Thomas a Mary Hughes, Dinbych. Yn 1848 priododd ag Anne, merch ieuengaf D. Davies, Dinbych, a chwaer i'r Parch. Samuel Davies (1788-1854). Ymfudont y flwyddyn ddilynol ac ymsefydlu yn Utica, Efrog Newydd. Bu'n dilyn ei alwedigaeth fel asiedydd ac yn pregethu ar y Suliau. Yn 1853 bu'n gofalu am y Genhadaeth Gymraeg yn Steuben a Trenton, Talaith Efrog Newydd. Ordeiniwyd ef yn henadur yn 1854 pryd y cafodd ganiatâd i weinyddu holl sacramentau'r eglwys. Yn 1857 bu'n weinidog yn Nekima, Wisconsin, am ddeng mlynedd. Symudodd i Oshkosh, Wisconsin yn 1867, ac yn 1869 aeth yn ei ôl i Utica, lle y bu farw ar 11 Awst 1871. Claddwyd ef ym Mynwent Forest Hill, Utica.



Parch. Lewis Meredith ('Lewis Glyn Dyfi', 1826-91)

Ganwyd ef yn Ffactri Ffridd, Pennal, ger Machynlleth. Pan oedd yn 12 oed symudodd ei rieni i Cwmlline, Cemaes. Dechreuodd bregethu yn 1849 a bu'n llafurio ar Gylchdaith Machynlleth hyd nes iddo ddechrau dioddef o afiechyd yn ei asgwrn cefn a'i cadwdd ef yn orweddod am ddwy flynedd. Yn ei afiechyd llwyddodd i gyhoeddi llyfryn sef *Blodau Glyn Dyfi*. Ymfudodd yn 1856 i Utica, Efrog Newydd. Treuliodd flwyddyn yn Athrofa Cazenovia yn perffeithio ei Saesneg a bu'n pregethu yng Nghylchdeithiau Trenton a Remsen; Floyd, Fairfield ac Oswego, Talaith Efrog Newydd gyda'r Saeson. Ar 13 Chwefor 1865 yn Oswego priododd â Miss Millie E Phelps, merch y Parch. A.J. Phelps (W). Symudodd ar ôl hynny i Gynhadledd Rock River, Illinois ac, ar ôl ymddeol, bu'n gwasanaethu'r eglwys Gymraeg yn Chicago lle y bu ef farw 29 Mawrth 1891. Claddwyd ef ym Mynwent Oak Park, Chicago.

W. ARVON ROBERTS

BATHAFARN BACH

Rhif 2 – Hydref 2012

© y cyfranwyr unigol

Cyhoeddwr:

Y Gymdeithas Hanes, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd

Golygydd:

Dr Lionel Madden, Hafren, Cae'r Gog, Aberystwyth SY23 1ET
ffôn: 01970 617771 ebo: madden.aber@btinternet.com

Cyhoeddir yn achlysurol i'w ddosbarthu gyda'r Gwyllydydd

Argraffwyr: Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286 672018)